



# Pigion Penallta

Cyrol 4

Tachwedd 2019

## ***Cylchlythyr tymhorol am y bywyd gwyllt ym Mharc Penallta***

---

Gyda'r tywydd gwlyb diweddar a rhagolygon y tywydd yn addo eira erbyn diwedd mis Tachwedd, does dim rhyfedd eich bod chi'n meddwl bod yr haf wedi mynd yn syth i'r gaeaf, ond cymerwch yr amser i edrych a byddwch yn gweld bod yr hydref ar ei anterth.

Mae coetiroedd Penallta yn paratoi ar gyfer y tymhorau cyfnewidiol. Mae'r diwrnodau byrrach a'r tymheredd disgynnol yn sbarduno coed collddail i ail-amsugno maetholion o'u dail. Mae hyn yn achosi newid yng nghyfansoddiad cemegol y ddeilen wrth i fwyd sy'n cynhyrchu cloroffyl, sy'n rhoi ei lliw gwyrdd iddi, ddechrau torri i lawr. Mae pigmentau eraill a gafodd eu cuddio yn ystod yr haf bellach yn dechrau dangos trwodd gan droi'r canopi yn glytwaith o goch, melyn a brown.



*Dail derw a chwpan mes*

Nid dim ond dail sy'n cwmpo i'r llawr er hynny. Mae 2019 yn flwyddyn gnau (mast year) pan fydd coed yn cydamseru cynhyrchu eu hadau gan gynhyrchu cynydau toreithiog. Fel llawer o goed eraill, bydd coed derw yn cynhyrchu gwahanol symiau o hadau o flwyddyn i flwyddyn. Mae cynydau mawr fel arfer yn digwydd bob 2 - 5 mlynedd gydag ychydig neu hyd yn oed dim mes yn cael eu cynhyrchu rhwng y blynyddoedd hyn. Nid ydym yn gwybod sut mae'r coed yn cydamseru cynhyrchu eu hadau ond credir y gallai'r cyfuniad cywir o dymheredd a glaw yn y gwanwyn sbarduno'r broses hon. Mae'n haws

dweud pam mae coed yn gwneud hyn. Mae cynhyrchu hadau yn cymryd llawer o egni a gall hyn gyfyngu ar dyfu yn ystod blynyddoedd cnau. Mae mes hefyd yn ffynhonnell fwyd werthfawr yn yr hydref a'r gaeaf i lawer o anifeiliaid fel ceirw a baedd gwyllt ac mae dal yn ôl o ran cynhyrchu hadau am ychydig o flynyddoedd yn helpu i gadw poblogaethau'r ysglyfaethwyr hyn yn isel. Yn ystod blwyddyn gnau, cynhyrchir mwy o fes nag y gall yr anifeiliaid hyn eu bwyta gan sicrhau bod rhai hadau'n goroesi i dyfu i'r genhedlaeth nesaf o goed derw.

---



---

Wrth i'r ffyngau ddiflannu, rydym yn croesawu dau ymwelydd gwych y gaeaf, cesig y ddrycin (fieldfares) a'r esgyll cochion (redwings). Yn aelodau o deulu'r fronfraith, mae'r ddau aderyn hyn yn dod i'r Deyrnas Unedig i fwydo ac yn aml gellir eu gweld mewn heidiau yn bwyta drain gwynion ac aeron cerddin. Ar nosweithiau clir, gwrandewch am ganu'r esgyll cochion yn mynd yn 'sî-î-îp' wrth iddyn nhw hedfan uwchben drwy'r tywyllwch - arwydd clir o'r tymor, oherwydd fel mae'r ffyngau wedi rhagweld.... Mae'r gaeaf yn dod!